PWYLLGOR CENEDLAETHOL COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 26ain O DACHWEDD 2010 YN NEUADD ABERDÂR, CAERDYDD

Yn bresennol:	Jon Owen Jones, Cadeirydd	Judith Webb
	Roger Cooper	John Lloyd Jones
	Trefor Owen	Rory O'Sullivan
	Clive Thomas	
Hefyd yn mynychu:	Martin Veale (Cyllid CCC)	
	Richard Siddons (Grantiau a Rheoliadau CCC)	
	Terry O'Keefe (Ysgrifenyddiaeth CCC)	
	Geraldene Mills (Ysgrifenyddiaeth CCC)	
Ymddiheuriadau:	Peter Garson	

CYFLWYNIAD

1. Cychwynnodd JOJ y cyfarfod. Roedd Peter Garson wedi ymddiheuro na allai fod yn bresennol.

COFNODION A MATERION YN CODI

2. Gofynnodd JOJ i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain o Fedi gael eu newid i gynnwys pwynt gweithredu i'r Ysgrifennydd fynd ar ôl gweithredoedd o gyfarfodydd blaenorol. Yn arbennig, roedd MV i ddarparu dadansoddiad manylach o'r adran "Eraill" yn yr adroddiad cyllid.

3. Dywedodd RC y dylai "understating" yn yr ail linell ym mharagraff 6 ar dudalen 2 o'r cofnodion Saesneg gael ei newid i "understanding". Cafodd y cofnodion a'r log gweithredoedd eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

4. Cyflwynodd TMO ei adroddiad a rhoddodd wybod i'r Pwyllgor am: yr ansicrwydd presennol yn y farchnad goed oherwydd cyflwr yr economi a'r lleihad mewn galw; bod CCC wedi gweithio'n dda gydag Adran Materion Gwledig LlCC ar y trefniadau i gau'r cynllun CGG (BWW) i geisiadau newydd; bod 30 o ymholiadau eisoes ar gyfer y cynllun creu coetir a oedd newydd ei lansio; bod safle Plant! trefol newydd wedi cael ei nodi ym Mharc Caia, Wrecsam a fyddai'n codi proffil coetiroedd yng ngogledd-ddwyrain Cymru; bod cwympo a dargedwyd i atal lledaeniad *P ramorum* yn parhau; a bod cynllunio senario yn cael ei wneud i lywio cynlluniau tymor-hir ar gyfer ymdrin â'r clefyd. Ychwanegodd fod y Strategaeth Ceirw bron wedi'i chwblhau ac y byddai CCC yn gofyn am ddyddiad gan y Gweinidog ar gyfer ei lansio yn y Flwyddyn Newydd. Hysbysodd y Pwyllgor fod CCC wedi cytuno ar fynediad newydd

ar gyfer datblygiad fferm wynt posibl yn Nant y Moch yng Ngheredigion. Ychwanegodd fod y prosiectau ffermydd gwynt yng Ngogledd Cymru bellach yn symud yn eu blaen yn gyflymach a bod Gweinidog yr Amgylchedd a'r Gweinidog Materion Gwledig wedi trafod, yn ddiweddar, adroddiad CCC ar gynhyrchu egni adnewyddadwy ar raddfa fach. Cytunodd y Gweinidogion mai cynhyrchu egni a manteision cymunedol oedd y prif amcanion. Dywedodd TMO wrth yr aelodau fod prif fwrdd Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd wedi derbyn cynllun coetir CCC a fyddai'n denu rhagor o gymorth ac adnoddau gan Awdurdodau Lleol ac eraill. Cytunodd TMO i ddosbarthu copi o'r cynllun coetir ymhlith aelodau'r Pwyllgor Cenedlaethol. Byddai CCC yn awr yn ceisio cydweithio pellach yn Ardal Adfywio Strategol Cymoedd y Gorllewin.

Pwynt Gweithredu – TMO i anfon copi o gynllun coetir AASBC i aelodau'r PC **TMO**

5. Holodd JOJ am ddyfodol partneriaid megis Cymunedau'n Gyntaf a phrosiectau Parc y Cymoedd yn wyneb y toriadau presennol yng nghyllideb y Llywodraeth. Dywedodd RO'S y byddai'n rhoi cyngor i TMO ar safbwynt ehangach LICC ynghylch y gyllideb ddrafft.

Pwynt Gweithredu – RO'S i roi cyngor i TMO ar gyllideb LICC **RO'S**

6. Cyfeiriodd TMO yr aelodau at yr adran o'i adroddiad sy'n ymwneud ag adeiladu 5 tŷ cynaliadwy ar dir CCC yn Nolwyddelan gan Gymdeithas Tai Clwyd. Roedd CCC bellach wedi rhyddhau tir ar gyfer 8 o dai i'w codi gan bobl leol a châi rhagor o dir ei ryddhau maes o law. Dywedodd fod y tai'n defnyddio'r dull adeiladu Tŷ Unnos, yn defnyddio sbriws Cymreig, ac yn effeithlon iawn o ran arbed egni. Dywedodd RC fod Coed Cymru'n trefnu ymweliadau â'r safle ar y 13^{eg} a'r 14^{eg} o Ragfyr. Gofynnodd JW a oedd cost-effeithiolrwydd y dull adeiladu wedi cael ei asesu ac atebodd TMO mai mater i'r datblygwyr oedd hyn gan fod y model adeiladu Tŷ Unnos bellach yn gweithredu yn erbyn systemau eraill yn y farchnad. Hysbysodd TMO yr aelodau fod CCC yn gweithio gyda Gwyliau Coedwig i ddarganfod safle newydd posibl ar gyfer cabanau yng Nghymru. Roedd tri safle posibl wedi cael eu nodi ym Meddgelert, Maesgwm a Garwnant ac roedd astudiaeth dichonoldeb ar y gweill yng Ngarwnant ar y cyd â phrosiect Blaenau'r Cymoedd i ddarganfod a ellid gwneud buddsoddiad ar y cyd. Ychwanegodd fod y safleoedd yn fodel busnes da a'u bod yn atyniadol i fuddsoddwyr gan eu bod yn denu nifer mawr o gwsmeriaid drwy gydol y flwyddyn. Dywedodd JW ei bod hi wedi bod ar daith maes yn ddiweddar, a drefnwyd gan brosiect Blaenau'r Cymoedd, yn rhinwedd ei swydd fel Comisiynydd, a oedd wedi cynnwys ymweliad â'r safle llwyddiannus iawn yn Fforest y Ddena. Nododd TMO y bydd yr astudiaeth dichonoldeb yn cael ei hystyried gan y PC ac y gellid trefnu ymweliad â Fforest y Ddena i weld safle newydd. Gofynnodd RC a allai'r system Tŷ Unnos gael ei hystyried yn rhan o'r prosiect a dywedodd TMO mai cyfrifoldeb

Y PROSIECT DEWISIADAU CYFLAWNI AMGYLCHEDDOL (adolygiad LlCC)

7. Yna rhoddodd TMO y newyddion diweddaraf i'r PC am Brosiect Dewisiadau Cyflawni Amgylcheddol (EDO) LlCC a hynt y Mesur Cyrff Cyhoeddus yr oedd Tŷ'r Arglwyddi yn bwrw golwg drosto. Eglurodd JOJ y gwahanol gynigion a oedd yn cael eu gwneud gan dair gweinyddiaeth Prydain Fawr a allai ddylanwadu ar strwythur a swyddogaethau'r Comisiwn Coedwigaeth a dywedodd y byddai angen i'r CC ym mhob gwlad fod yn hyblyg er mwyn gallu addasu i beth bynnag a fyddai'n digwydd yn ystod y misoedd i ddod. Yna bu'r Pwyllgor yn trafod yr effeithiau posibl ar CCC a chytunodd ei bod hi'n rhy fuan i allu barnu. Disgrifiodd TMO y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r Prosiect Dewisiadau Cyflawni Amgylcheddol. Barn y Pwyllgor oedd bod angen gwneud llawer mwy o waith ar yr astudiaeth dichonoldeb ac na fyddai'n briodol symud ymlaen nes bod y casgliadau'n cael eu hategu gan ddata trylwyr a dadleuon cytbwys. Diolchodd TMO i'r PC am ei gymorth a'i gyngor.

8. Dywedodd CT fod y trefniadau ar gyfer y digwyddiad rhanddeiliaid coedwigaeth ar yr 8fed o Ragfyr i'w galluogi i ymateb i'r ymgynghoriad 'Cymru Fyw' yn mynd rhagddynt yn dda ac y câi'r cyfarfod ei annerch gan Jon Taylor, Yr Athro Colin Price a Shaun Russell.

ADRODDIAD ARIANNOL

9. BA09/10 – Hysbysodd MV y Pwyllgor fod Llythyr Rheoli 09/10 Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg y diwrnod cynt.

10. Dywedodd fod CCC wedi cael gwybod, yn dilyn cyhoeddi cyllideb ddrafft LlCC, ei fod yn debygol o weld gostyngiad o 6.98% yn ei gyllid arian yn ystod y 3 blynedd nesaf. Nododd fod hyn yn ostyngiad llai na'r disgwyl ond ei fod yn parhau'n doriad ac y byddai angen ei reoli. Dywedodd fod CCC wedi derbyn £0.5m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon a gâi ei ddefnyddio i brynu peiriant cynaeafu a cherbydau ysgafn newydd. Cyfeiriodd MV yr aelodau at Atodiad 1 yn ei adroddiad a oedd yn cwmpasu cyfnod o 6 mis gan nad oedd y ffigurau 7 mis ar gael eto. Nododd ei fod wedi cynnwys esboniad o'r costau corfforaethol yn unol â chais y PC. Ychwanegodd fod gan CCC ar hyn o bryd amrywiant anffafriol o £371k am y flwyddyn o ganlyniad i geisiadau ychwanegol am grant CGG (BWW) cyn i'r cynllun gau i geisiadau newydd. Mater amseru oedd hyn a byddid yn gwneud iawn amdano yn y blynyddoedd i ddod. Roedd gwariant ar reoli *P ramorum* yn £400k ar hyn o

bryd ac roedd £1m ychwanegol wedi cael ei chynnwys yng nghyllideb y flwyddyn nesaf i ymdrin â'r mater hwn.

11. Gan symud ymlaen at gyllideb 2011/12, adroddodd MV fod y broses yn mynd rhagddi'n dda. Roedd cyfarfodydd wedi cael eu cynnal rhwng ei staff a'r rheolwyr Uned a dywedodd y rhoddai'r wybodaeth ddiweddaraf i gyfarfod nesaf y PC. Ychwanegodd fod CCC yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar dendro 10 contract ac i CCC arwain ar 3 o'r rhain a oedd yn werth cyfanswm o £761k.

12. Atebodd MV gwestiynau'r Pwyllgor ar gost cwympo coed ac incwm o werthu biomas a gwnaeth gynnig i ddarparu dadansoddiad pellach o'r costau corfforaethol i alluogi'r Pwyllgor i weld yr hyn a oedd wedi'i gynnwys.

Pwynt Gweithredu – MV i ddarparu dadansoddiad manylach o'r costau Eraill a ddangosir yn Atodiad 1 **MV**

ADRODDIAD Y PANEL YMGYNGHOROL STRATEGAETH COETIR

13. Cyflwynodd RC yr adroddiad drwy ddisgrifio ymweliad diweddar ag Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd lle y gwelodd y Panel waith ardderchog yn cael ei wneud gyda'r cymunedau lleol. Yn ystod y cyfarfod busnes trafodwyd sut y gallai'r Panel ymateb i'r ymgynghoriad 'Cymru Fyw' i sicrhau bod ganddo ddimensiwn 'marchnad' a'i fod wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn. Dywedodd fod y Panel yn credu bod y ddogfen yn ei ffurf bresennol yn gofyn llawer o gwestiynau ond yn cynnig ychydig o atebion. Adroddodd ei fod wedi mynychu cyfarfod o Bartneriaeth Gyswllt Niwbwrch yn ddiweddar lle y cyflwynwyd y cynllun rheoli a oedd newydd ei gwblhau. Trafodwyd sawl pwynt yn y cynllun ond fe'i croesawyd at ei gilydd gan y rheiny a oedd yn bresennol. Adroddodd hefyd ei fod wedi bod yn rhan o ymweliad diddorol, wedi'i drefnu gan CCC/Ymchwil Coedwig, â Niwbwrch i ystyried y posibiliadau ar gyfer tyfu rhywogaethau eraill yn y goedwig.

YR HEINTIAD *PHYTOPTHORA RAMORUM* AR LARWYDD: Y DIWEDDARAF

14. Rhoddodd RS gyflwyniad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt *P ramorum*. Dangosodd i'r aelodau y mapiau mwyaf diweddar ar ledaeniad yr heintiad a oedd wedi cael ei ddarganfod bellach mewn lleoliadau yr holl ffordd i fyny arfordir gorllewinol Ynysoedd Prydain gan gynnwys Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Gofynnodd JOJ a oedd hyn yn ganlyniad i ledaenu drwy'r awyr a dywedodd RS ei fod yn ganlyniad i 2 ffactor. Hyd at 1km câi sborau eu lledaenu drwy'r awyr, ac y tu hwnt i'r pellter hwn caent eu lledaenu'n bennaf o ganlyniad i weithgaredd dynol, yn enwedig drwy'r fasnach planhigion. Ychwanegodd RS y gellid cysylltu'r gyfradd lledaenu â thymheredd a bod angen gweithredu ar frys gan fod y sborau'n lledaenu'n gyflym drwy goedwigoedd dros gyfnod o 2 i 3 blynedd.

Dywedodd RS fod gwaith ymchwil yn awgrymu bod sborynnu'n digwydd yn yr hydref ac felly mai cwympo cyn diwedd Awst, o bosibl, a fyddai'n fwyaf effeithiol o ran atal lledaeniad y clefyd. Serch hynny, roedd llawer am y clefyd nad oedd yn hysbys a'r ymateb ar hyn o bryd fyddai cwympo'r coed cyn gynted ag y câi ei ddarganfod. Gofynnodd JOJ a oedd astudiaeth cost a budd wedi cael ei gwneud ar y risg o wneud dim byd. Atebodd RS nad oedd y dewis hwn ar gael gan fod dyletswydd statudol ar hyn o bryd i gwympo coed heintiedig. Serch hynny, roedd y tîm rheoli'n ystyried nifer o ddewisiadau ar gyfer sefydlu strategaeth rheoli clefyd.

Y COD CARBON COETIR

15. Rhoddodd CT gyflwyniad ar ddatblygu'r Cod Carbon Coetir. Gofynnodd JW am y costau rhedeg a chymhlethdod posibl y cynllun ac a fyddai'n debyg i UKWAS. Atebodd CT y dylai fod yn haws ei gyllido nag UKWAS gan ei fod yn 'nes at y farchnad' ac, o ran cymhlethdod, mai'r gamp oedd datblygu safon gredadwy a chadarn heb lesteirio ymwneud cwmnïau preifat. Ystyriai fod hyn yn gyfle mawr i'r sector preifat ac mai eu cyfrifoldeb hwy oedd gwneud iddo weithio, nid y Llywodraeth, gan mai'r farchnad yn y pen draw fyddai'n pennu'r galw. Roedd Defra wrthi'n ymgynghori ar drefniadau ar gyfer adrodd am dyniadau nwyon tŷ gwydr (NTG) a'r cynnig yw y bydd y Cod yn diffinio'r safon. Tynnodd CT sylw at y ffaith ei bod hi'n bosibl y bydd gan Lywodraeth y DU fframwaith gorfodol yn y pen draw yn hytrach na threfniant gwirfoddol i gwmnïau adrodd am eu tyniadau ac allyriadau NTG. Disgwyliai y câi'r Cod terfynol ei lansio'r flwyddyn nesaf ac y byddai'r Comisiwn Coedwigaeth yn chwilio am gorff arall i reoli'r fframwaith ehangach yn y tymor canolig. Nododd TMO fod y ddau gyflwyniad blaenorol yn pwysleisio gwerth tystiolaeth ymchwil. **CT**

EDRYCH YMLAEN 2011

16. Gwahoddodd TO'K yr aelodau i anfon sylwadau iddo ar gyfer y fersiwn ddrafft o Edrych Ymlaen 2011.

UNRHYW FATER ARALL

Nid oedd unrhyw fater arall.

Cyfarfod Nesaf – Dydd Gwener yr 11eg o Chwefror yn Swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd